# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Gwaith barbio ar y llwybrau, Mai 2026 ymlaen.

Gwahoddir prisiau/tendr gan gontractwyr ar gyfer gwaith barbio a chlirio ar y llwybrau canlynol erbyn **30 Ebrill 2026.**

1. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
2. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
3. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
4. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
5. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
6. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi un toriad.
7. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.

Bydd angen gwneud y toriad cyntaf ganol Mehefin, a'r ail doriad ddechrau Medi.
Diswylir pris am wneud y gwaith am y flwyddyn.

9. **Cae Chwarae Llangybi** - angen torri a chasglu'r gwellt a'i glirio o'r safle unwaith y mis rhwng mis Mai – Hydref, hefyd barbio tu nol i'r ffens a glanhau'r matiau unwaith y flwyddyn (fe ystyrir gwneud contract 3 mlynedd, rhwng 1af o Fai 2026 - 31ain o Fawrth 2029).

| Cae chwarae Llangybi | Pris |
|---|---|
| Torri a chasglu'r gwellt/strimio yr ymylon i gyd, torri a chodi y gwellt a'i gario oddi ar y safle, chwythu y llwybrau a matiau er mwyn ei gwneud yn daclus ar ol gorffen ei glirio o'r safle | 6 gwaith y flwyddyn, sef unwaith y mis rhwng mis Mai – Hydref |
| Barbio tu nol i'r ffens | (unwaith y flwyddyn) |
| Glanhau y matiau du drwy ei sgwrio hefo dwr a sebon a wedyn ei golchi hefo dwr glan | (unwaith y flwyddyn) |

Bydd angen cynnwys tystysgrif yswiriant cyfredol i wneud y math yma o waith gyda'r cais.

Os am holi ynglýn ag unrhyw agwedd o'r gwaith gellir danfon y manylion drwy'r post neu drwy gyfrwng ebost gan ddefnyddio'r manylion canlynol:- Bethan Parry Jones, Derwen Gam, Chwilog. Pwllheli, Gwynedd LL53 6SP/ clercccllanystumdwy@gmail.com